

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

Hydref 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/2415
Rhif dogfen:13/070

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

**Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Cymru)**

Hydref 2013

Alys Thomas a Martin Jennings

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Amseru	2
3.	Cefndir y polisi	3
4.	Y Bil.....	5
5.	Ymatebion.....	7
6.	Aseiad Effaith Rheoleiddiol.....	9

Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

Dyddiad cyflwyno 30 Medi 2013

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynhelir dadl ar y Bil yng **Nghyfnod 1** ar 8 Hydref 2013. Ni chreffir ar y bil gan bwyllgor yng Nghyfnod 1.

Y Pwyllgor sy'n cynnal y gwaith craffu yng Nghyfnod 2: Y Pwyllgor Cyllid [7 Tachwedd 2013]

1. Cyflwyniad

Ar 10 Mehefin 2013, cyhoeddodd Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil newydd, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i sefydliadau'r GIG i reoli eu cyllidebau, ar ddechrau tymor nesaf y Cynulliad. Byddai'r Bil yn cynnig y dylai'r gofyniad statudol bod byrddau iechyd lleol yn mantoli eu cyfrifon dros gyfnod o un flwyddyn gael ei newid i gylch o dair blynedd. Dywedodd y Gweinidog:

Un o anfanteision mawr y gyfundrefn ariannol gyfredol yw y gall annog penderfyniadau ynghylch y flwyddyn gyfredol. Bydd y newid hwn yn helpu'r GIG i ganolbwyntio ar ei benderfyniadau cynllunio gwasanaethau, gweithlu ac ariannol dros gyfnod hwy yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar un flwyddyn, yn enwedig diwedd mis Mawrth.

Mae'n rhaid i mi fod yn gwbl eglur nad yw symud i gylch cynllunio ariannol tair blynedd yn golygu na ddylai byrddau iechyd reoli'u cyllid mewn ffordd gwbl drylwyr.

Mae Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol oll wedi argymhell y dylid cyflwyno fframwaith cynllunio mwy hyblyg ar gyfer y GIG, gan gynnwys rheoli'u sefyllfa ariannol ar draws blynnyddoedd ariannol.

Disgwylir cyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhymor nesaf y Cynulliad, ac os caiff ei gymeradwyo, bydd y gyfundrefn ariannol newydd yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2014/15.¹

Cyflwynwyd [Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\)](#) ar 30 Medi 2013.

¹ [Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, Deddfwriaeth newydd i ddiwygio cyfundrefn ariannol y GIG 10 Mehefin 2013 \[fel ar 1 Hydref 2013\]](#)

2. Amseru

Bydd y Bil yn osgoi'r cam lle bydd pwyllgor yn craffu arno yng Nghyfnod 1.

Wrth gyhoeddi ei Ddatganiad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Prif Weinidog:

Ar ôl toriad yr haf, byddwn yn cyflwyno y Bil cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), a fydd yn arwain at yr hyblygrwydd ariannol sydd ei angen ar fyrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar heriau darparu gwasanaethau. Bydd trefn ariannol tair blynedd, yn hytrach na threfn ariannol flynyddol, yn golygu y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu gwneud penderfyniadau tymor hir doeth er lles y cleifion a'r GIG yn ei gyfanrwydd. **O ystyried yr angen brys am hyblygrwydd ariannol, gyda chytundeb y Llywydd a chefnogaeth y Pwyllgor Busnes, rwy'n cynnig ein bod yn defnyddio'r weithdrefn llwybr cyflym drwy'r broses ddeddfwriaethol. Nid oes bwriad yn hyn o beth, mewn unrhyw ffordd, i gyfyngu ar y gwaith craffu y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu ei roi i'r Bil, ond mae'n adlewyrchu'r lefel uchel o gefnogaeth mewn egwyddor y mae Aelodau eisoes wedi'i roi, a'r cyfle sydd gennym i sicrhau bod gan Fyrddau Iechyd Lleol hyblygrwydd ariannol i ddarparu'r gwerth gorau y gallant o ran gwasanaethau, ar gyfer y nifer fwyaf o gleifion, o fewn yr amserlen fwyaf priodol.** [Fy mhwyslais i]²

Yn ddiweddarach, dywedodd:

O ran y Bil cyllid y GIG, byddwn yn rhagweld y byddai'n Fil byr iawn, dim ond i gyflwyno cylch tair blynedd o gyllid ar gyfer byrddau iechyd lleol. Ni fyddwn yn disgwyl iddo fod yn Fil hir, ac ni fyddwn yn rhagweld ei fod yn edrych ar ffigurau gwirioneddol o ran cyllid y GIG. Mae'r rheini'n cael eu trin mewn ffyrdd eraill. Mae Bil cyllid y GIG yn enghraifft o ymdrin â sefyllfa lle na ddylai rhywbeth fod wedi cael ei roi ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol—hynny yw, rhywbeth y gellid yn hawdd fod wedi ymdrin ag ef mewn is-ddeddfwriaeth ar adeg pasio'r ddeddfwriaeth. Mae'n rhagflaenu'r pwerau sydd gennym yn y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, mae'n dangos y cydbwysedd bregus y mae'n rhaid ei fesur rhwng cynnwys manylion ar wyneb Bil a chyflwyno'r manylion drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd dadleuon, wrth gwrs, o ran yr hyn y dylai'r cydbwysedd hwnnw fod, ond, yn y pen draw, mae'n fater o hyblygrwydd. Os oes gennych rywbeth ar wyneb y Bil sy'n ei wneud yn gwbl anhyblyg, mae'n ei gwneud yn llawer mwy anodd i newid pethau. Mae'n golygu, fel yr ydym yn ei wneud gyda Bil cyllid y GIG, gorfod cyflwyno, mewn gwirionedd, Bil diwygio i ymdrin â sefyllfa, yn hytrach nag ymdrin â hi'n llawer cyflymach drwy lwybrau eraill pe byddai'r llwybrau hynny wedi bod ar gael i ni.³

²Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

³Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

3. Cefndir y polisi

Caiff byrddau iechyd lleol eu diffinio (yn unol â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) fel cyrff 'Llywodraeth Ganolog' at ddibenion Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau. Maent yn dod o dan adain gyllidebu a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru ac yn cael eu rheoli gan Derfynau Adnoddau Blynnyddol.⁴

Gosodwyd dyletswyddau ariannol ar fyrddau iechyd lleol o dan adran 175 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*, a oedd yn gwneud yn ofynnol bod byrddau iechyd lleol:

...in respect of each financial year, perform its functions so as to secure that its expenditure which is attributable to the performance by it of its functions in that year (not including its general ophthalmic and pharmaceutical expenditure) does not exceed the aggregate of the amount allotted to it for that year⁵.

Mae dyletswydd o dan adran 176 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* hefyd yn ei gwneud yn ofynnol nad yw bwrdd iechyd lleol yn defnyddio mwy o adnoddau mewn blwyddyn ariannol na'r swm a bennwyd ar ei gyfer gan Weinidogion Cymru yn y flwyddyn honno.⁶

Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig deddfwriaethol, bu'r ddyletswydd statudol flynyddol ar fyrddau iechyd lleol yn destun trafodaeth o fewn y GIG a rhwydwaith o randdeiliaid ehangach. Yn benodol, sefydlwyd Grŵp Llywodraeth Cymru a'r GIG ar y cyd yn 2012, i ystyried hyblygrwydd ariannol, a chyflwynodd y Grŵp hwn adroddiad i Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG ym mis Rhagfyr 2012. Mae argymhellion y Grŵp yn cynnwys sicrhau bod hyblygrwydd ariannol i gefnogi Cynlluniau Tymor Canolig integredig, bod deddfwriaeth yn cael ei hadolygu er mwyn rhoi hyblygrwydd ychwanegol a sicrhau ar yr un pryd bod dulliau llywodraethu a disgyblu cadarn, a dulliau broceriaeth ar waith er mwyn i gyrff y GIG gefnogi ei gilydd.⁷

Mae nifer o bwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud argymhellion ynghylch fframwaith cynllunio mwy hyblyg ar gyfer y GIG. Ym mis Ebrill 2012 argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylid 'galluogi Byrddau Iechyd Lleol i wneud defnydd mwy effeithiol o arian ar draws blynnyddoedd ariannol yn unol ag Awdurdodau Lleol. Er mwyn gwella prosesau cynllunio ariannol yn y tymor canolig i hirdymor.'⁸

⁴[Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

⁵ [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#) (Saesneg yn unig)

⁶ [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006 \[fel ar 2 Hydref 2013\]](#) (Saesneg yn unig)

⁷[Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus](#), [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus](#), [Adroddiad Ebrill 2012 \[fel ar 30 Medi\]](#)

Nododd adroddiad ar Gyllid Iechyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012:

Mae cyfundrefn cyfrifyddu adnoddau'r GIG yn canolbwyntio yn y byrdymor ar fantoli'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hyn o bosibl yn ei gwneud yn anodd i gyrff y GIG greu cronfeydd i fuddsoddi mewn gwaith trawsffurfio a newid er mwyn cyflawni arbedion mewn blynyddoedd i ddod. O fewn y fframwaith cyfrifyddu adnoddau presennol, dylai Llywodraeth Cymru asesu'r gofyniad presennol i fyrddau iechyd fantoli'r gyllideb bob blwyddyn, a datblygu opsiynau a fyddai'n galluogi gyrff y GIG i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio lle mae'r rhain yn debygol o gyflawni arbedion yn y dyfodol a'u galluogi i fantoli'r gyllideb dros gyfnod hwy.⁹

Yn ddiweddarach yn 2012, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymchwiliad a oedd wedi'i seilio ar faterion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyllid iechyd yn 2012.¹⁰ Yna clywodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn ei adroddiad ar yr ymchwiliad mae'r Pwyllgor eto'n argymhell 'bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol i fynd i'r afael ag anhyblygrwydd trefniadau ariannol Bwrddau Iechyd dros flynyddoedd ariannol'.¹¹ Nododd:

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn nodi pryderon bod canolbwyntio ar fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn yn annog gorbwyslais ar y byrdymor. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r gofyniad i gyrff y GIG fantoli'r gyllideb bob blwyddyn. Mae ei adroddiad hefyd yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i adolygu'r drefn ariannol ar gyfer y GIG.¹²

Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:

One of the ways in which our financial regime is not producing the right kinds of behaviour is this focus on one year and a year-end balance, because people are then inclined to focus simply on getting to that finishing line, each and every year. If you go back to look at last year, you can see that lots of nonrecurring measures were put in place to get there, but the underlying recurring position was not addressed by those nonrecurring measures. A much better model would be to look at a two or three-year time frame and pay attention not to the end-of-year results, but to the underlying recurring position.¹³

⁹ [Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyllid Iechyd, 2012* \[fel ar 1 Hydref 2013\]](#)

¹⁰ [Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyllid Iechyd, 2012* \[fel ar 1 Hydref 2013\]](#)

¹¹ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid Iechyd, Adroddiad dyddiedig Chwefror 2013* \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

¹² [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid Iechyd, Adroddiad dyddiedig Chwefror 2013* \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

¹³ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyllid Iechyd, Adroddiad dyddiedig Chwefror 2013* \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

4. Y Bil

Mae Bil Cyllid Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn rhoi cynigion Llywodraeth Cymru yn Law yn Llaw at lechyd ar waith, er mwyn cyflwyno cyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol newydd ar fyrddau iechyd lleol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd yn hytrach na phob blwyddyn. Mae'r Bil yn creu dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol i fabwysiadu cyfundrefn ariannol i reoli adnoddau, gwariant a therfynau a gymeradwywyd mewn modd hyblyg dros gyfnod treigl o dair blynedd. Bydd hyn yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol ganolbwyntio eu gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu penderfyniadau am y gweithlu a'u penderfyniadau ariannol, a'r broses o roi hynny ar waith dros gyfnod hwy sy'n haws ei drin. Bwriad y Bil yw galluogi i well penderfyniadau gael eu gwneud ac i'r byrddau iechyd lleol roi'r atebion gorau ar waith, a dileu un o heriau sylweddol y drefn bresennol sy'n hyrwyddo trefn o wneud penderfyniadau yn y tymor byr ar sail blwyddyn ariannol.

Mae **Adran 1** yn rhoi trosolwg o'r Bil.

Mae **Adran 2**, dyletswyddau ariannol byrddau iechyd lleol, yn diwygio Pennod 6 o Ran 11 o *Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*. Mae is-adran (1) o adran 175 (dyletswyddau ariannol byrddau iechyd lleol) yn cael ei ddisodli gan:

- (1) Each Local Health Board must, in respect of each three-year accounting period, perform its functions so as to secure that its expenditure which is attributable to the performance by it of its functions in that period (not including its general ophthalmic services expenditure) does not exceed the aggregate of—
- (a) the amount allotted to it for each financial year in that period under section 174(1)(b),
 - (b) any sums received by it in each financial year in that period under any other provision of this Act, and
 - (c) any sums received by it in each financial year in that period otherwise than under this Act for the purpose of enabling it to defray any such expenditure.

Ar ddiwedd adran 175 dylid rhoi is-adran newydd i mewn -

- (8) "Three-year accounting period" means a period of three years which begins with the first day of a financial year, so that the first begins with 1 April 2014 and ends with 31 March 2017 and the second begins with 1 April 2015 and ends with 31 March 2018 (and so on).

Mae Adran 176 (terfynau adnoddau ar gyfer byrddau iechyd lleol) wedi'i diddymu.

Adran 3 - Enw byr a chychwyn

Nid yw'r Bil hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Disgwylir y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2014. Daw'r Bil i rym ar 1 Ebrill 2014

Yn ei ddatganiad ar y Bil, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Fy mwriad yw y bydd y fframwaith cynllunio newydd a'r cynlluniau sy'n ei gefnogi yn datgan rôl amlycach i Lywodraeth Cymru o ran craffu ar gynlluniau byrddau iechyd lleol, eu hadolygu a'u cymeradwy'n rheolaidd. Bydd y fframwaith cynllunio newydd hwn yn golygu y bydd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, sy'n cynnwys Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn disodli'r trefniant blynyddol presennol.¹⁴

Am y ddwy flynedd gyntaf y bydd y Bil mewn grym h.y. 2014-15 a 2015-16, ni fydd prawf 'dyletswydd ariannol statudol' ffurfiol. O ganlyniad, ni fydd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu barn archwilio ar hyn. Fodd bynnag, o 2016-17 ymlaen, bydd y prawf yn gymwys, ac o ganlyniad caiff ei archwilio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno ar derfynau adnoddau blynyddol gyda phob bwrdd iechyd lleol. Oherwydd na fydd prawf dyletswydd ariannol gwirioneddol yn y blynyddoedd hyn, byddai methu â chynnal eu costau o fewn y terfynau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn arwain, nid at farn archwilio 'rheoleidd-dra', ond at lunio adroddiad naratif llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru a phresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o bosibl, ac at roi unrhyw weithdrefnau llymach perthnasol ar waith, fel y bernir sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.¹⁵

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol \(Mark Drakeford AC\), Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 1 Hydref 2013 \[fel ar 1 October 2013\]](#)

¹⁵ [Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

5. Ymatebion

Yn ystod Datganiad Deddfwriaethol y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2013, dywedodd Andrew R T Davies AC, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig:

Hoffwn hefyd dynnu sylw at Fil cyllid y gwasanaeth iechyd gwladol sy'n cael ei gyflwyno, ac sydd wedi cael sylw teilwng yn y cyfryngau yn dilyn sylwadau gan y Gweinidog iechyd. Yn amlwg, rydym yn ymwybodol o'r amgylchiadau ariannol heriol y mae'r gwasanaeth iechyd wedi darganfod ei hun ynddynt, ac mae caniatáu mwy o hyblygrwydd yn rhywbeth y mae'n rhaid ei groesawu, ond, os nad ydych yn newid deinameg yr ariannu, y cyfan a gewch chi yn y pen draw yw diffyg llawer mwy ar ddiwedd y broses tair blynedd. Mae angen i'r Llywodraeth roi sicrwydd, drwy symud at ffenestr ariannu dair blynedd, nad ydym ddim ond yn gwthio'r broblem ymhellach allan. Rwy'n meddwl bod angen llawer mwy o eglurder ynghylch y mater hwnnw.¹⁶

Dywedodd Arweinydd Plaid Cymru, (Leanne Wood):

Gofynnwyd i chi am y Bil cyllid y GIG. Dywedasoeh y byddai'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd, ond ni wnaethoch ateb y cwestiwn canolog: a fydd Bil cyllid y GIG yn osgoi'r materion a godwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru heddiw—er enghraifft, llawdriniaethau'n cael eu gohirio rhag colli arian—neu a fydd problemau'n cael ei storio mewn fframwaith aml-flynyddol, gan arwain at broblemau dybryd ar ddiwedd y cylch tair blynedd?¹⁷

Dywedodd Aled Roberts AC dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru:

[...] mae cyfeiriad yn y datganiad at broses llwybr carlam yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Bil Cyllid y GIG (Cymru). Er y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn bod angen mwy o hyblygrwydd ariannol, ac yn ymwybodol bod problemau penodol yn codi o ganlyniad i'r angen i fyrddau iechyd fantoli'r llyfrau ar ddiwedd y flwyddyn, rwyf yn gofyn, Brif Weinidog, i ddrafftio'r Bil ystyried y dystiolaeth yr ydym yn ei chlywed yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Os ydym am roi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd, mae angen i ni gael mwy o sicrwydd o ran cadernid eu rheolaeth ariannol. Clywsom dystiolaeth yr wythnos diwethaf gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr nad oedd cyllideb y cytunwyd arni ar waith ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac nad oedd unrhyw gytundeb mewnol o ran ei gyllideb, mewn rhai achosion hyd at ddiwedd mis Medi y flwyddyn honno. Os ydym am roi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd, mae angen i ni gael mwy o hyder o ran y ffordd y maent yn gweithredu.¹⁸

¹⁶Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

¹⁷Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

¹⁸Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

Dywedodd Darren Millar AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:

Brif Weinidog, roeddwn yn croesawu'n fawr gyhoeddi Bil cyllid y GIG pan wnaed hynny ychydig wythnosau yn ôl ac rwy'n falch iawn hefyd o weld y cyfeiriwyd ato heddiw yn eich datganiad. Rydych yn gwybod bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi gwneud peth gwaith ar gyllid y GIG dros y ddwy flynedd diwethaf, a chafwyd dau adroddiad lle'r ydym wedi gwneud argymhellion clir i fynd i'r afael ag anhyblygrwydd y trefniadau ariannol ar gyfer byrddau iechyd lleol Cymru. Yn ein hadroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' ym mis Ebrill 2012, roeddem yn argymhell y dylid cael hyblygrwydd ar draws blynyddoedd ariannol, yn unol ag awdurdodau lleol. Ym mis Chwefror 2013, dywedasom y dylid parhau i ddarparu broceriaeth i fyrdau iechyd lleol, cyn i ni gael ateb deddfwriaethol mwy parhaol. Felly, rwy'n falch bod gennym gyfle deddfwriaethol parhaol i fynd i'r afael â'r pethau hyn yn y tymor hwy.

Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi argymhell proses cyllideb tair blynedd ar unrhyw bwynt. Mewn gwirionedd, ni chawsom lawer o dystiolaeth gan bobl a oedd yn awgrymu y byddai cyfnod o dair blynedd o gyllidebu yn ateb mwy priodol. Felly, rwy'n meddwl tybed beth yw sail y dystiolaeth mai cyfnod o dair blynedd o gyllidebu yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Bydd fy mhlaid i'n cefnogi hyblygrwydd a byddwn yn ceisio cefnogi cynigion y Llywodraeth i geisio caniatáu i'r GIG gael mwy o hyblygrwydd yn ei gyllid, ond byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o wybodaeth gennych am sylfaen y dystiolaeth ar gyfer hynny.¹⁹

Ymatebodd y Prif Weinidog:

O ran y mater cyntaf, mae'r cyfnod o dair blynedd wedi ei ddewis oherwydd ei fod yn safonol yn y sector cyhoeddus. Mae'n safonol o ran y setliadau refeniw a chyfalaf yr ydym yn eu cael gan Lywodraeth y DU ac mae'n safonol mewn llywodraeth leol, lle y mae wedi dod yn norm i gyfnod cyllido neu gyfnod cyllideb tair blynedd i gael ei ymgorffori. Felly, dyna o ble mae'r tair blynedd yn dod.²⁰

¹⁹Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

²⁰Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2013 \[fel ar 26 Medi 2013\]](#)

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn amlinellu costau amodol ar gyfer dau opsiwn. **Opsiwn 1**: defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n darparu dyletswydd ariannol flynyddol, gyda gwariant blynyddol heb fod yn fwy na'r terfyn adnoddau blynyddol, a pharhau i roi canllawiau ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig.

Opsiwn 2, yr opsiwn a ffefrir, sef cyflwyno deddfwriaeth sy'n golygu y bydd dyletswydd ariannol dros dair blynedd yn disodli'r ddyletswydd ariannol flynyddol, a pharhau â'r polisi o ddarparu cyfarwyddiadau ar gyfer cynllunio tymor canolig a chynllunio ariannol tymor canolig integredig. Mae'r costau ar gyfer Opsiwn 2 yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Opsiwn 1.

Mae Opsiwn 1 yn amlinellu amcan gostau mewn cysylltiad ag ymrwymadau presennol Llywodraeth Cymru a chostau archwilio presennol. Codir y costau hyn o hyd yn **Opsiwn 2, gydag amcangyfrif o £2,500 ar gyfer costau pontio a £119,000 o gostau parhaus, neu gostau rheolaidd bob blwyddyn**. Cyfeirir at amrywiaeth o dystiolaeth yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol am sut y bwriedir darparu hyblygrwydd ariannol a dulliau cynllunio ariannol tymor canolig yr opsiwn a ffefrir i'r byrddau iechyd lleol. Dangosir hyn yn Nhabl 1:

Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys Atodiad²¹ sy'n dangos sut y bwriedir rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i orwario neu dan-wario yn ôl y cyllidebau y cytunwyd arnynt, a pha gamau a gaiff eu cymryd pan na fydd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynlluniau bwrdd iechyd lleol ymlaen llaw.

Nid yw'r **Aseiad Effaith Rheoleiddiol** yn ceisio mesur y manteision o ran y modd y byddai'r hyblygrwydd ychwanegol yn gwella rheolaeth ariannol na sut y caiff adnoddau prin eu defnyddio.

²¹²¹ [Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol \[fel ar 30 Medi 2013\]](#)

Tabl 1 Amcangyfrif o gostau a amlygwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer opsiynau a gostiwyd

	<u>Opsiwn 1</u>	<u>Opsiwn 2</u>
	£	£
Costau pontio		
<i>Llywodraeth Cymru</i>		
Fframwaith	50,000	50,000
Craffu allanol	62,500	62,500
Hyfforddi a Datblygu	10,000	10,000
Canllawiau	-	500
Cyfathrebu	-	2,000
Cyfanswm y costau pontio	122,500	125,000
Costau rheolaidd		
<i>Byrddau Iechyd Lleol</i>		
Costau Archwilio Sylfaenol presennol Swyddfa Archwilio Cymru	1,768,000	1,768,000
Gofynion archwilio ychwanegol Swyddfa Archwilio Cymru	-	119,000
Cyfanswm y costau rheolaidd	1,768,000	1,887,000

Ffynhonnell: [¹Y Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol. Tablau 3, 4 a 5](#)